O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 761 (Cy. 181)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam i Gylchfan Llandygái, Gwynedd) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Gorffennaf 2017* |
| *Yn dod i rym* | *17 Gorffennaf 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Gaergybi yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Gorffennaf 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam i Gylchfan Llandygái, Gwynedd) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith o

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 17 Gorffennaf 2017 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Llundain i Gaergybi yr A5 rhwng Cylchfan Halton, y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chylchfan Llandygái, Gwynedd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, reidio unrhyw feic pedal, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 yn ystod cyfnod y cludo.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 1.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Gorffennaf 2017

*Nina Ley*
Pennaeth Yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro, Dim Goddiweddyd a Chau Cilfannau

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cylchfan Halton, y Waun, Wrecsam hyd at ganolbwynt Cylchfan Llandygái, Gwynedd.

Y gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd i'r gorllewin o gyffordd Bryn Farm, i'r dwyrain o Lyndyfrdwy.

Y gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r de y gefnffordd i'r gogledd-ddwyrain o gyffordd Bryn Farm, i'r dwyrain o Lyndyfrdwy.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho Dros Dro

Y darnau o ddwy ochr y gefnffordd o'r enw Berwyn Road, Llangollen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn tua'r gorllewin o bwynt 43 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Farchnad am bellter o 215 o fetrau.

Ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 95 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 128 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd y Bont, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 138 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Las hyd at bwynt 197 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.